PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 18 IONAWR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Carter, Chris Davis, Magill a/ac Sanders |

50 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ralph Cook.

51 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Sanders fuddiant personol yn Eitem 5 gan fod aelod o'i theulu yn derbyn gofal cartref trwy daliadau uniongyrchol.

52 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

53 : DIOGELU OEDOLION

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elsmore Aelod Cabinet (Iechyd, Tai a Llesiant), Tony Young Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Amanda Phillips Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion ac Alys Jones Rheolwr Gweithredol Diogelu i’r cyfarfod.

Yn ogystal croesawodd y Cadeirydd yr Uwch-arolygydd Stephen Jones – Heddlu De Cymru; Sheila Harrison, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Gaerdydd a’r Fro a Linda Hugh-Jones (Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol a'r Fro) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet dros Iechyd, Tai a Lles i wneud datganiad a dywedodd ei bod yn croesawu'r craffu ar yr eitem hon, mae nifer o newidiadau wedi bod a byddai aelodau yn clywed gan gydweithwyr ynghylch trefniadau cyfredol.

Gwahoddodd y Cadeirydd Cyfarwyddwr Gwasanaetha Cymdeithasol i wneud datganiad a dywedodd fod llawer wedi’i wneud yn y flwyddyn ddiwethaf er bod llawer i’w wneud o hyd, mae Caerdydd mewn sefyllfa lawer gwell ar hyn o bryd.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr aelodau beth sydd wedi newid yn nhermau ymarferol yn y flwyddyn ddiwethaf i newid y model i ymateb i’r Ddeddf.

- Dywedodd swyddogion fod y Ddeddf yn gosod dyletswydd i ganfod Oedolion sydd mewn perygl, mae meini prawf i ddiffinio hyn. Mae bellach ddyletswydd hefyd i adrodd oedolion sydd mewn perygl ar y Cyngor a Phartneriaid ,Aelodau a Staff; mae swyddogion awdurdodedig ym mhob awdurdod hefyd i gyflawni gorchmynion, mae'r swyddogion hyn wedi'u hyfforddi'n llawn. Y rheolwr gwasanaeth yn adran Diogelu Oedolion sy'n gyfrifol yn bennaf am reoli'r swyddogion hyn. Mae Adolygiad Arfer Oedolion yn cymryd lle achosion Adolygiad Achosion Difrifol ac mae bellach Adolygiadau Arfer Oedolion a Phlant lle caiff grwpiau achos eu ffurfio. Yn y Ddeddf, mae dyletswydd i sefydlu byrddau rhanbarthol, mae hyn ar waith, mae tri gweithdy wedi'u cynnal i sefydlu a nodi rolau a chyfrifoldebau a phrif dasgau'r Bwrdd. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr nad yw cyfarfodydd blaenorol wedi bod yn benodol effeithiol gan na nodwyd unrhyw flaenoriaethau ac ystyriwyd bod popeth o frys; mae bellach dau brif faes, Gofal cartref/Preswyl a Gofal Demensia, lle bo swyddogion yn meddwl eu bod yn gallu gwneud gwahaniaeth ac maent yn cynnwys gwaith yn ymwneud â 'Operation Jasmine'. Dywedodd fod newidiadau hefyd wedi bod yn adran Weithrediadau, arweinyddiaeth fwy cadarn a dull o ddwyn darparwyr i gyfrif. Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu'n rhesymol ac mae'n cwrdd yn bwrpasol gyda chanolbwynt ar brif flaenoriaethau, gan roi dealltwriaeth well o ran gweithredu. Mae'r tîm POVA bellach wedi'i gydleoli yn y MASH lle bo uned fusnes ar y cyd i roi cymorth.

  Dywedodd Linda Hugh-Jones – Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod y BIP wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth, wedi cymryd rhan yn y gweithdai, yn rhan o'r MASH ac wedi cytuno i'r achos busnes.

  Dywedodd yr Uwch-arolygydd, Stephen Jones - Heddlu De Cymru fod yn ystod y 12 mis diwethaf swyddogion ar lefel Prif Uwch-arolygydd o leiaf wedi mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, wedi chwarae rhan fwy ac yn fwy hyderus wrth ddefnyddio sianeli POVA; mae her broffesiynol gadarn a chroesawir hyn mewn modd pwysig iawn.

- Gofynnodd yr Aelodau ynghylch drefniadau Llywodraethu, sut mae partneriaid yn y sefydliadu yn bwydo'r Bwrdd a chymryd dull rhanbarthol.

- Dywedodd swyddogion fod is-grwpiau dan y Bwrdd gyda chynrychiolwyr o'r holl bartneriaid; mae canllaw'r Ddeddf ar gyfer 4 is-grŵp: Hyfforddi, Archwilio, Ymgysylltu Cymunedol ac Adolygu Arfer. Mae'r rhain yn cwrdd yn rheolaidd i sicrhau yr ymgysylltir â phartneriaid a hefyd i nodi unrhyw faterion thematig penodol i fynd i'r afael â nhw.

- Gofynnodd yr Aelodau am y perthynas rhwng y Bwrdd Rhanbarthol a Bwrdd Cymru Gyfan; dywedodd y Cyfarwyddwr nad oes atebolrwydd deddfwriaethol gan y Bwrdd Cenedlaethol ond ei fod yn cwrdd yn gyfnodol, mae adroddiadau blynyddol rhanbarthol yn cael eu dwyn gerbron y Bwrdd Cenedlaethol ac nid oes pryder am welededd, atebolrwydd neu her. Mae aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol yn sefyll ar y Bwrdd Rhanbarthol. Cododd Aelod y posibilrwydd o'r Bwrdd Rhanbarthol yn awgrymu i'r Bwrdd Cenedlaethol bod yr ail yn cymryd rôl o ddarparu diffiniadau data cenedlaethol ynghylch POVA i helpu i sicrhau y defnyddir yr un termau ac chategorïau'n gyson, megis Ni Broffwyd,

ledled Cymru. Cynigiodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cymdeithasol i drosglwyddo'r syniad hwn at gynrychiolydd y Bwrdd Cenedlaethol.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at fynychder a chodi ymwybyddiaeth; gan nodi bod nifer mawr o bobl o hyd sy'n dioddef camdriniaeth nad ydynt yn cael eu cyrraedd o hyd, yn enwedig yn y sectorau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, Iechyd Meddwl, Caethiwed a Digartrefedd.

- Nodwyd hefyd nad oes ffordd glir ar dudalen flaen gwefan y Cyngor i adrodd pryderon. Cytunodd swyddogion nad oes digon o adrodd a bod angen i hyn wella. Mae proses recriwtio ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer swydd i gefnogi'r ddau fwrdd, bydda'r ôl yn cynnwys ymgysylltu cymunedol a hybu diogelu; mae mwy o waith i'w wneud yn y Gymuned ac mae gweithgareddau wedi'u trefnu ledled y Ddinas. Mewn perthynas â Phlant, mae swyddogion yn ymweld â mosgiau a rhoi gwybodaeth am ddiogelu yn ogystal â gweithgareddau ymgysylltu eraill i godi ymwybyddiaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Bwrdd Diogelu Corfforaethol hefyd a bod gan bawb rôl i'w chwarae gan gynnwys Aelodau sydd wedi cael hyfforddiant a hyfforddiant a gynigir i Aelodau newydd yn y Weinyddiaeth newydd.
  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y BIP yn gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol mewn perthynas ffurflenni atgyfeirio a gwella ansawdd atgyfeiriadau; mae hyfforddiant ar y cyd wedi bod ar gyfer prif arweinwyr ymroddedig ym Myrddau Iechyd Caerdydd a'r Fro ac mae hyfforddiant diwrnod llawn wedi'i gynnig ar Oedolion sydd mewn Perygl gan gynnwys Trais Domestig mewn pobl hŷn.

- Gofynnod yr Aelodau am fwy o wybodaeth am y gwaith o ymgysylltu â mosgiau a dywedwyd wrthynt fod gwaith yn cael ei wneud gyda Chyngor Mwslimiaid Cymru i godi a chefnogi gweithdrefnau diogelu, yn enwedig mewn perthynas â Phlant gan gydweithio gyda'r Heddlu.

- Nododd yr Aelodau eu rôl mewn perthynas â diogelu gan fod ganddynt fynediad heb oruchwyliaeth yn aml at oedolion sy'n agored i niwed a nodon nhw'r pwysigrwydd o wiriadau GDG a hyfforddiant diogelu, y mae nifer o Aelodau yn credu y dylai fod yn orfodol.

- Gan gyfeirio at waith, archwiliadau a thystiolaeth adran Weithredu , credodd yr Aelodau y byddai o gymorth pe bai Swyddogion gwasanaethau cymdeithas yn cael eu hyfforddi at safonau PACE.

- Cytunodd swyddogion ar y pwysigrwydd o hyfforddiant ar y cyd gyda'r holl bartneriaid.

- Trafododd yr Aelodau'r protocol WASPI a nodwyd bod hyn wedi'i adnewyddu yn barod ar gyfer y MASH gan fod dyletswydd i rannu gwybodaeth.

- Mynegodd yr Aelodau bryderon gyda hunan-gyllidwyr gan fod yr unig asesiad a wneir yw gan y darparwr gofal heb gyfranogiad gofal cymdeithasol; roedd yr Aelodau yn bryderus y gallai person fod yn ynysedig pe bai ei deulu'n datgysylltu .

- Nododd swyddogion nad oes gwahaniaeth rhwng hunan-gyllidwyr a chyfrifon a reolir pe bai materion diogelu; ond daeth hyn yn ôl i ddyletswydd pobl i adrodd ac ymwybyddiaeth well mewn cymunedau i annog cyfrifoldeb ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed.

- Gofynnodd yr Aelodau sut mae'r Bwrdd yn ymateb i faterion yn ymwneud â Diogelu yn erbyn y Cyngor a dywedwyd wrthynt y ymdrinnir â hyn trwy weithdrefn cwynion statudol i'r Cyfarwyddwr/Ombwdsman; pe bai unrhyw faterion yn cael eu nodi yna byddai'n trigo'r gweithdrefnau Diogelu. Hefyd pwysleisiodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod cydbwyseddau a gwiriadau system, gyda chynllunio, goruchwyliaeth, prosesau cwblhau ar gyfer pecynnau gofal, adolygu pecynnau, monitro rheolaidd ayyb.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw trothwyon yn berthnasol i fesurau niwed a dywedwyd bod trothwy POVA newydd ar hyn o bryd, gyda'r Ddeddf newydd yn newid y diffiniad i niwed sylweddol i botensial bod mewn perygl.

- Yn hanesyddol, mae'r trothwy wedi'i osod yn rhy uchel, mae llawer o atgyfeiriadau wedi'u diystyru fel anaddas a nodwyd bod angen tystiolaeth niwed sylweddol; dan y Ddeddf, nid oes angen tystiolaeth, mae risg bosibl yn awr neu yn y dyfodol yn ddigon.

- Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn un drafft a gofynnon nhw a yw bellach wedi'i gwblhau ac a yw'r holl ddata wedi'i gynnwys. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y sylwedd wedi'u gytuno , mae angen mwy o wybodaeth ar gyfer y cynllun gweithredu ac mai cynllun busnes fyddai'r ddogfen yn hytrach nag adroddiad.

CYTUNWYD – Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

54 : CRAFFU AR DALIADAU UNIONGYRCHOL CYN Y PENDERFYNIAD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elsmore Aelod Cabinet (Iechyd, Tai a Lles), Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Sarah McGill Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Amanda Phillips Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion a Denise Moriarty Prif Swyddog Cynllunio Strategol Anableddau Dysgu (Caerdydd a'r Fro) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a dywedodd mai plant yw chwarter y bobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol ac felly yn enwau'r Aelodau Cabinet ar gyfer y ddwy ardal yw'r adroddiad i'r Cabinet.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Ceisiodd yr Aelodau eglurhad ar a yw'r tendr yn ceisio ceisiadau gan un neu ddau ddarparwr a beth yw'r rhesymeg y tu ôl iddo.

- Dywedodd swyddogion mai ar gyfer 1 neu ddau ddarparwr yw e; ystyrion nhw 1 yn unig yn flaenorol, ond ar ôl profi'r farchnad ac i sicrhau capasiti a chynaliadwyedd ym mhob rhan o'r farchnad fel prynwr mwyaf Caerdydd o daliadau Uniongyrchol, credon nhw mai cynyddu i 1 neu 2 fyddai'r peth gorau

i’w wneud i sicrhau y gallai’r farchnad fodloni gofynion. Pe bai 2 ddarparwr yn cael eu penodi, byddai rhaniad 50/50.

- Gofynnodd yr Aelodau, o ystyried materion staffio'r Farchnad Ofal Cartref, beth sy'n cael ei wneud i stopio problemau cyfredol. Dywedodd swyddogion fod y mater yn rhan o fater cenedlaethol ehangach a bod ymgyrch i hybu gofal fel gyrfa; mae gwaith hefyd yn cael ei wneud gyda gwasanaethau i mewn i waith, gyda llwybr gyrfa yn cael ei roi ar waith.

  Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod wedi derbyn adroddiad gan Gyfathrebiadau bod mwy na 30,000 o bobl wedi edrych ar yr hysbysiadau ar Facebook a Twitter yn y mis diwethaf.

- Gofynnodd yr Aelodau a oes rhestr ddewis o wasanaethau a allai gael eu cyllido gan Daliadau Uniongyrchol gan eu bod wedi derbyn adborth trwy ymweliad diweddar â Chartref Chesire bod materion gyda'r rhestr dewis gyfredol.

- Dywedodd swyddogion bod dewisiadau dan yr adrannau cefnogi a chyfrifon a reolir; mae'r hyn y gall pobl ei ddewis o ran Taliadau Uniongyrchol wedi newid yn y Ddeddf gan alluogi bod yn greadigol wrth eu defnyddio. Ar gyfer y rhestr o gymorth y mae ei angen yw’r rhestr ddewis, yn hytrach na rhestr ddewis o’r hyn a gwmpesir gan Daliadau Uniongyrchol.

- Nododd yr Aelodau y weithdrefn agored ar gyfer caffael a gofynnon nhw a oes unrhyw lwybr caffael arall; dywedodd swyddogion, gan eu bod yn gweithio i amserlen dynn, fod y consensws oedd mai dewis agored yw’r dewis mwyaf agored.

- Nododd yr Aelodau y contract tair blynedd yn ogystal â thair blynedd ychwanegol a cheision nhw eglurhad ar a yw hyn yn floc o dair blynedd neu a yw'n cael ei adnewyddu bob blwyddyn.

- Dywedodd swyddogion mai contract tair blynedd o ddiwrnod 1 yw e ac yna floc ychwanegol o dair blynedd.

- Gofynnodd yr Aelodau sut mae’r cyngor yn sicrhau na roddir derbynwyr taliadau uniongyrchol o dan bwysau ac yn cael eu gadael yn agored i niwed. Dywedodd swyddogion ei bod yn bwysig egluro rôl y Cyngor/Darparwr; byddai’r Cyngor yn ymweld â’i holl ddefnyddwyr gwasanaeth cyn iddynt gael eu hatgyfeirio a byddai’n rhoi gwybod iddynt/esbonio popeth iddynt felly mae'n fwy diogel o bosibl. Ychwanegwyd bod mecanweithiau ar waith i drigo adolygiad o Daliadau Uniongyrchol os nad ydynt yn cael eu defnyddio fel y dylen nhw fod fel y cytunwyd gan y rheolwr achos.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at yr amserlen dynn a gofynnon nhw pam nad yw hyn wedi’i nodi fel risg yn Adroddiad y Cabinet.

- Dywedodd swyddogion bod paragraff 28 yr adroddiad yn nodi’r amserlenni ac mae posibiliadau ar waith ond nid yw’r rhain wedi’u cynnwys yn yr adroddiad.

Esboniodd yr Aelod Cabinet ei bod yn yr ystafell yn ystod trafodaethau ynghylch cynllunio at raid.

- Gofynnodd yr Aelodau a oes digon o adnoddau i reoli'r gwasanaeth a dywedwyd wrthynt fod arian i'w arbed a bod cais pwysau ar gyfer swydd ddynodedig.

- Gofynnodd yr Aelodau sut byddai Diogelu yn cael ei gynnwys a dywedwyd wrthynt y byddai'n rhan o'r fanyleb, busnes fel arfer oedd hwn fel gyda thendrau blaenorol.

- Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am y llwybr hyfforddiant ar gyfer cynorthwywyr personol.

- Dywedodd swyddogion y byddai hyfforddiant cyffredinol gan y sefydliad Taliadau Uniongyrchol, yna hyfforddiant personol ar gyfer yr unigolyn, er enghraifft hyfforddiant arbenigol yn Awtistiaeth. Roedd Safonau Gofal yn edrych ar gymhwyster ar gyfer Cynorthwy-wyr Personol a byddai hyn yn helpu i ddenu pobl i'r farchnad.

- Ceisiodd yr Aelodau eglurhad y byddai, ar ôl y pwynt cyswllt cyntaf, dri ymweliad gan y Cyngor cyn cael atgyfeiriad at y taliadau Uniongyrchol; dywedwyd wrthynt fod fel yna y mae hi. Dywedodd swyddogion fod taliadau Uniongyrchol ar gyfer pobl gydag anghenion Gofal/Cymorth ac felly caiff pobl eu hasesu, ymgysylltir â chyd-weithwyr cymunedol ac yna wneir penderfyniad.

- Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'r contract bloc tair blynedd a thair blynedd ychwanegol yn amodol ar adolygiadau a monitro rheolaidd.

CYTUNWYD – Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 55 : ADRODDIAD BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddodd yr adroddiad hwn y diweddaraf ar ohebiaeth i'r Pwyllgor. Derbyniodd y Pwyllgor gopïau o ohebiaeth a anfonwyd ac a dderbyniwyd mewn perthynas â materion oedd wedi'u craffu gan y Pwyllgor hwn yn flaenorol.

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau gan Banel Perfformiad y Pwyllgor a dywedwyd wrthynt fod trafodaeth fanwl wedi bod ar Addasu Anabl ac y byddai'n cael ei ddwyn gerbron pwyllgor craffu yn y dyfodol.

Dywedodd y Swyddog Craffu wrth yr Aelodau am nifer o newidiadau i'r amserlenni ar y rhaglen waith.

PENDERFYNWYD: At:

- Nodi cynnwys yr amserlen ohebiaeth a gofyn am ymateb pellach gan y Cyng. Derbyshire gan nad yw'r ymateb a dderbyniwyd yn ateb yr holl

gwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Clark mewn cyfarfod blaenorol;
Nodi adborth gan y Panel Perfformiad a Monitro Cyllideb

Dweud wrth y Swyddog Craffu i anfon yr e-bost a dderbyniwyd ynghylch y diwygiadau amserlen i'r Fframwaith Cynnal a Chadw Adeiladau ymlaen.

56 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Disgwylir i gyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau Oedolion a Chymunedol ddigwydd am 2.30pm 13 Chwefror 2017 yn Ystafell Bwyllgor 4 Neuadd y Sir (Craffu Cyllideb)